



**Geraint Wyn Parry**  
Pennaeth

**Geraint Wyn Parry**  
Headteacher

4 Chwefror 2019

Annwyl Riant \ Warcheidwad

Mae'n bleser mawr gennyf rannu newyddion gyda chi ynglŷn â chanlyniadau system Categori Ysgolion Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yr wythnos ddiwethaf.

Unwaith eto, rydym wedi cael ei henwi'n ysgol Categori 'Gwyrdd' A o dan system Categori Ysgolion Llywodraeth Cymru.

Daw hyn yn dilyn blwyddyn arall o ganlyniadau rhagorol a welodd Ysgol Brynhyfryd yn dod i'r brig fel yr ysgol uwchradd orau yng Ngogledd Cymru o ran ei pherfformiad, ac yn un o'r ysgolion a berfformiodd orau yng Nghymru.

Defnyddir amrywiaeth eang o wybodaeth i gategori ysgolion, gan gynnwys gwybodaeth am sut y caiff ysgol ei harwain a'i rheoli, ansawdd y dysgu ac addysgu a lefel y gefnogaeth a'r her sydd ei hangen i wella. Caiff gwybodaeth arall ei chynnwys hefyd, megis asesiadau athrawon, cyfraddau presenoldeb a chanlyniadau arholiadau, ac mae hyn yn gosod cefndir ar gyfer y broses gategori ysgolion.

Mae lliw'r categori hefyd yn dangos lefel y cymorth sydd ei hangen ar ysgol (yr ysgolion yn y categori gwyrdd sydd angen y lefel isaf o gymorth a'r rheini yn y categori coch sydd angen y cymorth mwyaf dwys).

Yn dilyn y gwelliannau yn ein canlyniadau, mae nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgol hefyd wedi cynyddu bob blwyddyn ac rydym yn disgwyl gweld cynnydd sylweddol unwaith eto ym mis Medi.

Mae'n bleser gennyf rannu'r newyddion gwych hwn gyda chi a hoffwn ddiolch yn ddiffuant i chi am eich cefnogaeth barhaus i bopeth a wnawn i geisio gwella cyfleoedd bywyd ein pobl ifanc. Hoffwn hefyd gydnabod ymdrech ac ymroddiad diflino staff yr ysgol a diolch iddynt – hebddynt, ni fyddai dim o hyn yn bosibl.

Yn gywir

**Geraint Wyn Parry**  
Pennaeth